OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 679

# Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022

## RHAN 1

## Cyflwyniad

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg feithrin" ("*nursery education*") yw addysg a ddarperir i blant neu ddisgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol—

(a) mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, neu

(b) gan ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

mae i "addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir" ("*funded non-maintained nursery education*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 80(1)(a) o Ddeddf 2021;

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 6 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 8 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 9 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 10 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 11 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 12 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 13 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 14 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 10" ("*year 10*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd 15 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception year*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd 5 oed ynddo;

mae i "cwricwlwm perthnasol" ("*relevant curriculum*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) o Ddeddf 2021;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**2**);

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant neu ddisgyblion mewn lleoliad y bydd y rhan fwyaf ohonynt, mewn blwyddyn academaidd benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr "lleoliad" ("*setting*") yw—

(a) ysgol a gynhelir,

(b) ysgol feithrin a gynhelir,

(c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, a

(d) uned cyfeirio disgyblion;

mae i "pennaeth" yr ystyr a roddir i "head teacher" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 79(1)(a) o Ddeddf 2021;

mae i "ysgol feithrin a gynhelir" ("*maintained nursery school*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 79(1)(b) o Ddeddf 2021.

(**1**) 1996 p. 56.

(**2**) Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 71(1) o Ddeddf Addysg 1997 a pharagraff 9 o Atodlen 6 iddi a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a pharagraff 34 o Atodlen 21 iddi.